# Memorandwm Cydweithio


## 1. Cyflwyniad i'r Memorandwm

## 2. Cyflwyniad i Waith y Ddau Fudiad

2.1 Mentrau Iaith Cymru

2.2 Urdd Gobaith Cymru

## 3. Cydweithio

3.1 Diffinio gwaith

3.2 Cyfarfodydd a Chyd-Gynllunio

3.4 Cyd-hyrwyddo a Marchnata

3.5 Eisteddfod yr Urdd

# 1. Cyflwyniad

Nododd dogfen y Llywodraeth Iaith fyw: iaith byw – bwrw mlaen, Datganiad polisi, gyhoeddwyd Awst 2014, bod y Llywodraeth yn disgwyl i gydweithio effeithiol ddigwydd rhwng yr holl bartneriaid sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Nodir ymhellach bod tystiolaeth gadarn yn adolygiad y Mentrau bod angen creu eglurder ynghylch rolau'r gwahanol actorion yn y maes hybu iaith. Ymhellach nodir bwriad y Llywodraeth i hwyluso cytundeb cydweithio.

Bwriad y cytundeb hwn yw bod yn sail i drafodaeth gadarnhaol rhwng Mentrau Iaith Cymru ac Urdd Gobaith Cymru, a chynnig fformat i drafod ymhellach gyda phartneriaid eraill er mwyn sefydlu cytundeb cydweithio effeithiol yn genedlaethol.

Mae'r egwyddorion canlynol wrth wraidd ein perthynas cydweithio:

- Bod ein gweithgareddau yn cael eu cynllunio mewn modd cydlynol
- Ein bod ni'n cydnabod cryfderau ein gilydd a pharchu ffiniau gweithredu
- Bod yr union natur o gydweithio yn amrywio mewn gwahanol ardaloedd yn dibynnu ar adnoddau, cyfleoedd a blaenoriaethau.

# 2. Cyflwyniad i Waith y Ddau Fudiad

## 2.1 Mentrau Iaith Cymru

Mae Mentrau Iaith Cymru (MIC) yn fudiad cenedlaethol sy'n cefnogi gwaith y Mentrau Iaith lleol. Mae'r Mentrau Iaith yn rhwydwaith o 23 o fudiadau sy'n unigryw i Gymru ac sydd yn anelu at gael effaith hir dymor ar y Gymraeg drwy hyrwyddo a datblygu ar lefel gymunedol, gwaith sydd yn cynnwys elfennau hyrwyddo sylfaenol holl bwysig a datblygu cymunedol uchelgeisiol. Rhyngddynt mae'r Mentrau Iaith yn cyflogi dros 300 o aelodau staff ac yn cydweithio gyda dros 1,300 o wirfoddolwyr i gynnal dros 16,000 o weithgareddau er budd dros 160,000 o gyfranogwyr bob blwyddyn.

### Cefndir y Mentrau Iaith

Sefydlwyd y Fenter Iaith gyntaf yng Nghwm Gwendraeth yn 1991. Erbyn hyn mae 23 Menter Iaith leol ledled Cymru yn gwasanaethu pob rhan o'r wlad.

Y Mentrau Iaith yw'r ffordd mae cymunedau lleol Cymru yn gweithredu er budd y Gymraeg. Maent wedi bod yn fodel hynod lwyddiannus hyd y blynyddoedd ac yn cael eu cydnabod fel ffordd effeithiol o ddatblygu cymunedol sydd yn gwneud gwahaniaeth yn lleol. Mae pob Menter Iaith yn unigryw felly mae eu safbwynt a'u hymateb i sefyllfaoedd yn amrywio, ac mae hyn yn gryfder i'w groesawu. Mae'r gwaith a wneir gan bob Menter yn adlewyrchu natur cymdeithasol-ieithyddol yr ardal y gweithredir ynddi.

Mae'r Mentrau Iaith yn cael eu rheoli gan Bwyllgorau Rheoli gwirfoddol, sef unigolion o'r gymuned leol ac maent yn gweithio mewn partneriaeth gydag amryw o sefydliadau eraill.

### Cefndir Mentrau Iaith Cymru

Fe sefydlwyd MIC yn 1998 pan oedd y Mentrau lleol yn gweld bod angen cydweithio yn agosach, rhannu syniadau ac arfer da. Y Mentrau Iaith sydd yn berchen ar MIC ac yn llywio ein hamcanion a'n gweithgareddau.

Ein prif swyddogaeth yw cefnogi gwaith y Mentrau Iaith wrth iddynt hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, ond mae gweithgareddau Mentrau Iaith Cymru yn ymestyn y tu hwnt i hyn. Rydym hefyd yn gweithredu yn strategol i sicrhau dylanwad ar bolisïau cyhoeddus a phenderfyniadau sydd yn cael effaith ar y Gymraeg yn lleol ac yn genedlaethol.

Yn llorweddol i'n gwaith mae'r egwyddor o rannu gwybodaeth, profiadau, syniadau ac adnoddau rhwng y Mentrau Iaith a phartneriaid eraill ar draws Cymru.

## 2.2 Urdd Gobaith Cymru

Amcan Urdd Gobaith Cymru yn ôl ei gyfansoddiad yw " sicrhau bod holl ieuenctid Cymru yn cael cyfle trwy gyfrwng y Gymraeg i ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, trwy feithrin sgiliau personol a chymdeithasol."

Mae Urdd Gobaith Cymru yn cyflawni hyn drwy amryw o ddulliau gan gynnwys cynnal eisteddfodau, gwersylloedd, cyhoeddi cylchgronau, cefnogi adrannau ac aelwydydd mewn ysgolion ac yn gymunedol, darparu gwaith ieuenctid, trefnu gweithgareddau mewn cyfnodau o wyliau a datblygu prosiectau eraill fel bo cyllid yn caniatáu, e.e. rhwydwaith o swyddogion chwaraeon. Gwneir y gwaith gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr, ysgolion a rhwydwaith o fforymau ieuenctid a sefydlwyd.

Gwaith craidd ac arbenigedd yr Urdd yw:

- Rhoi cefnogaeth i adrannau ac aelwydydd cymunedol, sy'n cael eu cynnal gan wirfoddolwyr ac annog sefydlu mwy ohonynt. Rhoi cefnogaeth i adrannau sy'n cael eu cynnal gan ysgolion.
- Darparu a datblygu gwasanaethau ieuenctid cenedlaethol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn unol a'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu ieuenctid (YEPF) ond sy'n cael ei ddarparu yn lleol a neu yn rhanbarthol.
- Cefnogi Swyddogion ieuenctid sydd yn darparu achrediadau a datblygu gweithgareddau sy'n hyrwyddo a newid agweddau am y Gymraeg. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys datblygu gwirfoddolwyr ifanc.
- Darparu gwasanaethau chwaraeon cenedlaethol, gan gynnwys hyfforddi arweinwyr chwaraeon a sefydlu clybiau chwaraeon, trwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n cael ei ddarparu yn lleol.
- Cynnal cyfundrefn gystadleuol wirfoddol sy'n cynnal 220 o eisteddfodau lleol.
- Cynnal tri Gwersyll preswyl sy'n rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.
- Hyfforddi a chefnogi staff i gyflawni achrediadau a chymhwyster Gwaith Ieuenctid lefel 2 a lefel 3, a hyfforddiant arall pwrpasol.

Mae gan yr Urdd 260 aelod o staff, 53,000 o aelodau, 900 o ganghennau a thua 10,000 o wirfoddolwyr.

## 3. Cydweithio

Ymrwymwn i gydweithio er budd y Gymraeg ar draws Cymru i sicrhau fod gweithgareddau sy'n cael eu trefnu i hyrwyddo'r Gymraeg yn digwydd mewn ffordd gydlynol. Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Gynnal cyfarfodydd er mwyn annog cyd-gynllunio
- Gydweithio i gyd-hyrwyddo a marchnata gwaith ein gilydd

## Diffinio gwaith

Byddwn yn cydnabod cryfderau ein gilydd a pharchu ffiniau gweithredu. Mae'r ddau fudiad yn cydnabod bod eu meysydd gwaith weithiau yn gorgyffwrdd, a gyda chydweithrediad a chyfathrebu priodol rhwng y ddau rydym yn gweld hyn yn gryfder i'w groesawu bydd yn sicrhau bod y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg yn cael eu gwasanaethu yn y ffordd orau.

Oherwydd natur amrywiol ac eang gweithgareddau'r ddau fudiad bydd yr union natur o gydweithio yn amrywio o ardal i ardal yn dibynnu ar adnoddau a blaenoriaethau.

### Cyfarfodydd a Chyd-gynllunio

Cydnabyddwn bwysigrwydd cynnal deialog cenedlaethol a lleol parhaol er mwyn rhannu gwybodaeth, trafod datblygiadau allweddol mewn meysydd perthnasol, cynllunio'n strategol a chwilio am gyfleoedd i gydweithio.

### Cyfarfodydd

Er mwyn annog cydweithio effeithiol byddwn ni yn:

- Cynnal cyfarfodydd cydweithio cenedlaethol rhwng Mentrau Iaith Cymru ac Urdd Gobaith Cymru, gan anelu at gynnal dau gyfarfod y flwyddyn. Bwriedir cael eitemau sefydlog ar agenda'r cyfarfodydd, gan gynnwys diweddariad cyffredinol gan y ddau fudiad; cyfleoedd i gydweithio; anawsterau; marchnata; adolygu'r memorandwm ac unrhyw faterion eraill.
- Cynnig cyfleoedd i fynychu cyfarfodydd strategol ei gilydd er mwyn trafod prosiectau neu faterion penodol (e.e. cynnig slot penodol mewn cyfarfodydd cenedlaethol neu ranbarthol) os yw'n amserol ac yn ymarferol.
- Trefnu cyfarfodydd eraill arbennig yn ôl yr angen, yn enwedig wrth i'r naill fudiad neu'r llall gynllunio gwaith a phrosiectau newydd mewn ardaloedd penodol.

### Cyd-gynllunio

- Byddwn ymgynghori a'n gilydd wrth gynllunio gweithgaredd newydd, yn lleol neu yn genedlaethol.
- Byddwn yn cydweithio ar lefel strategol i sicrhau bod bylchau yn cael eu hadnabod, a chydweithio effeithiol yn digwydd er lles amcanion pawb.
- Byddwn yn ystyried dulliau o weithio yn genedlaethol ac o fewn ffiniau rhanbarthol drwy ddatblygu perthnasau rhwng Swyddogion cyflogedig y sefydliadau ar bob lefel.
- Byddwn yn ystyried a oes cyfleoedd i rannu adnoddau, neu ddod at ein gilydd i gyflogi swyddogion ar y cyd.

Yr uchod i'w trafod mewn cyfarfodydd cydweithio a / neu trwy ohebiaeth y tu allan i'r cyfarfodydd hynny.

**Cyd-hyrwyddo a Marchnata**

Mae Mentrau Iaith Cymru ac Urdd Gobaith Cymru yn ymgymryd â gweithgareddau marchnata a hyrwyddo amrywiol, gan dargedu grwpiau a chynulleidfaoedd penodol. Cydnabyddir bod rhai gweithgareddau yn targedu'r un grwpiau a chynulleidfaoedd. Mae potensial i'r ddau fudiad gefnogi ac ychwanegu gwerth at ymgyrchoedd a gweithgareddau marchnata ei gilydd trwy:

- Hyrwyddo a chefnogi'n gilydd lle'n briodol gan gynnwys cydweithio ar farchnata sy'n ymwneud a chyfleoedd i bobl ifanc fanteisio ar weithgareddau addysgol, hamdden a diwylliannol yn Gymraeg
- Hyrwyddo gweithgareddau penodol ein gilydd ar lefel genedlaethol a lleol, lle bo'n briodol ac yn ymarferol
- Drafod cyfleoedd i farchnata ar y cyd (e.e. cynllunio a chynnal ymgyrchoedd penodol mewn partneriaeth, yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol)

Y pwyntiau uchod i'w trafod mewn cyfarfodydd cydweithio a / neu trwy ohebiaeth y tu allan i'r cyfarfodydd hynny. Gellid ystyried datblygu cyfarfodydd i drafod marchnata yn benodol rhwng Swyddogion Marchnata'r ddau fudiad, ar wahân i'r cyfarfodydd cydweithio arferol.

**Eisteddfod yr Urdd**

- Byddwn yn trafod mewnbwn a chydweithio posibl wrth drefnu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, ac wrth sicrhau gwaddol i'r digwyddiad hwnnw yn flynyddol.

Yr uchod i'w trafod yn y cyfarfodydd cydweithio a/neu rhwng Swyddogion perthnasol y ddau fudiad.

**Hyfforddiant**

- Rhannu arbenigedd hyfforddiant, e.e. cynnig hyfforddiant mewnol i'w gilydd
- Cynnig llefydd ar hyfforddiant a brynwyd i mewn i'w gilydd (e.e. os oes llefydd sbâr ar gyrsiau, y naill fudiad yn cynnig llefydd i'r llall am ddim / gostyngiad)
- Datblygu a chynllunio cyrsiau hyfforddiant ar y cyd i ddiwallu anghenion / llenwi bylchau yn narpariaeth

Yr uchod i'w trafod yn y cyfarfodydd cydweithio a/neu rhwng Swyddogion perthnasol y ddau fudiad.

## Cyfnod ac Adolygu

Mae'r Memorandwm hwn yn dechrau ar 1 Mehefin 2015 a chaiff ei adolygu yn flynyddol wedi hynny, neu yn ôl yr angen.